

Cymorth wedi'i Dargeddu i Rieni "A ydych chi'n gofidio am eich plentyn sydd yn ei Arddegau?" Ceredigion

Partneriaid sy'n rhan o hyn: Tîm o amgylch y Teulu Ceredigion, Tîm Teulu (Tîm Cymorth i Deuluoedd Ceredigion), Heddlu Dyfed Powys, Barod, Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDAS), Gwasanaeth Ataliol Cyfiawnder Ieuencid.

Tachwedd 2020

Pwrpas y Grŵp

Nododd yr ysgol leol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu garfan o bobl ifanc yr oeddent yn agored iawn i niwed gan gamddefnyddio sylweddau a bod yn destun camfanteisio o ran llinellau sirol. Roedd eu rhieni yn ei chael hi'n anos rheoli'r ymddygiad hwn yn annibynnol ac roedd cyfyngiadau COVID yn golygu ei bod yn anodd darparu'r cymorth dwys wyneb yn wyneb a fyddai wedi cael ei ddarparu fel arfer er mwyn ymateb i hyn. Cytunwyd sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o wasanaethau y gallent helpu, iddynt deimlo'n hyderus i gysylltu â'r gwasanaethau hynny yn uniongyrchol ac i rieni gynorthwyo ei gilydd wrth reoli'r bobl ifanc fel grŵp. Y nod oedd canolbwyntio ar rymuso rhieni gan ddefnyddio dull Arwyddion Diogelwch a Lles er mwyn eu galluogi i adfer rhywfaint o ddylanwad a rheolaeth dros y person ifanc.

Cynhaliwyd pedair sesiwn gyda'r hwyr ar draws pedair wythnos, lle y trafodwyd gwahanol bynciau bob wythnos. Nodwyd pedwar rhiant o bedwar trwy fforwm Gweithwyr Proffesiynol Arweiniol Tîm o Amgylch y Teulu, yna bu'r cydlynnydd TAT yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd bendant dros y ffôn, ac anfonwyd pecyn lles at bob rhiant – gan gynnwys llawlyfr i rieni Cysylltiadau Teuluol, yn ogystal â the a siocled yn dilyn y sesiwn gyntaf ragarweiniol

- Sesiwn 1 – Cyfle i gyfarfod pawb. Beth oedd y rhieni yn gofidio amdano?
- Sesiwn 2 – Cyflwyniad gan Barod: gwybodaeth am wahanol gyffuriau, beth yw'r arwyddion pan fydd rhywun yn eu cymryd, a beth sy'n helpu i gadw eich plentyn yn eu harddegau yn ddiogel.
- Sesiwn 3 – Cyflwyniad gan Tîm Teulu: strategaethau cyfathrebu i rieni a defnyddio Ymrwrthedd Di-drais. Cyflwyniad gan WWDAS: trais gan blentyn yn erbyn rhiant a strategaethau Break 4 Change.
- Sesiwn 4 – Cyflwyniad gan heddlu Dyfed Powys: Llinellau Sirol. Cyflwyniad gan Gyfiawnder Ieuencid: dulliau adferol a'r hyn sy'n digwydd pan gaiff person ifanc eu cyfeirio.

Gwelwyd yr holl rieni yn mynychu'n rheolaidd, gan feithrin eu hyder dros y sesiynau. Gwelwyd un person ifanc, nad oedd ei Fam-gu yn ymdopi gydag ef, yn dechrau derbyn ei fod wedi cael ei wrthod sawl gwaith, a bod hyn yn dylanwadu ar ei ymddygiad, ac yn dilyn hyn, fe'i cynorthwywyd ganddi i ddychwelyd i ofal ei Dad gyda gwaith parhaus yn cael ei wneud gan wasanaethau Help Cynnar Ceredigion gan gynnwys TAT, y tîm Ymddygiad, WWDAS a gwasanaeth Ataliol Cyfiawnder Ieuencid er mwyn cynnal hyn.

Dywedodd y rhieni:

“Mwynheais bob sesiwn yn fawr”

“Grŵp mor groesawgar”

“Roeddwn yn edrych ymlaen i'n sesiwn bob wythnos”

“Pynciau diddorol ac yn hawdd gwranddo arnynt”

“Nid oedd sesiwn awr o hyd yn ddigon, gallai fod wedi bod yn 1½ awr”

“Rydw i'n teimlo'n hyderus y gallaf eistedd i lawr gyda fy mab a thrafod cyffuriau gydag ef, gan bod gennyf y wybodaeth nawr”

“Roedd hi'n hawdd siarad gyda'r holl hwyluswyr ac roeddent wir wedi gwranddo arnaf”

“Roeddwn wrth fy modd o gael fy mhecynnau lles yn y post, ac roedd hyn wedi peri i mi deimlo bod rhywun yn ymboeni amdanaf, gan sylweddoli nad Mam yn unig ydwyf, a bod angen i mi ofalu am fy hun hefyd”

“Mwynheais gyfarfod rhieni eraill ac nid oes ofn arnaf gysylltu â nhw am unrhyw reswm”

“Heb os, byddwn yn mynychu grwpiau eraill tebyg i hwn. Cadwch fy enw ar y rhestr”

“Roedd hi'n braf cael negeseuon e-bost bob wythnos yn rhoi adborth i ni am bob sesiwn, a chlywed geiriau cadarnhaol”

“Byddai wedi bod yn braf cael cyswllt wyneb yn wyneb, ond rydw i'n deall yn llwyr pam y bu'n ddarpariaeth rith”

“Mae wedi rhoi hyder i mi fel rhiant y gallaf bennu terfynau”

Adborth gan Heddlu Dyfed Powys

“Fel Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu, mae'n hanfodol ein bod yn cael y cyfleoedd ychwanegol hyn i addysgu a chynnwys y rhieni, yn arbennig, pan fynegir pryderon yn yr ysgol a thrwy'r gymuned o unigolion penodol. Mae'r sesiynau hyn wedi caniatáu i ni weithio dan drefniant aml-asiantaeth y tu allan i gylch gwaith yr ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.”

Adroddiad a baratowyd gan Gydlynnydd Tîm o Amgylch y Teulu Ceredigion, Emma Jones

Tachwedd 2020